PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9:

ADRODDIAD ETIFEDDIAETH YR AIL GYNULLIAD – 2003-2007

RHAGYMADRODD

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad o dro i dro ynghylch eu cynnydd wrth gyflawni eu rhaglen waith. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno ar wahân i adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2006-07, ac mae iddo ddwy ran. Yn gyntaf, mae'n rhoi trosolwg ar flaenoriaethau strategol a gweithgareddau gwaith Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (y Pwyllgor) yn ystod yr Ail Gynulliad. Yn ail, mae'n nodi'r hyn y bydd y pwyllgor neu'r pwyllgorau a fydd yn ei olynu yn ystod y Trydydd Cynulliad yn ei etifeddu, gan nodi'r materion allweddol y gallai'r Pwyllgorau hynny ddymuno eu hystyried.

Mae copïau o holl adroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion ac adysgrifau cyfarfodydd y Pwyllgor i'w cael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

1. TROSOLWG STRATEGOL

Cylch Gorchwyl a Chyfrifoldebau

1.1 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Mae portffolio'r Gweinidog yn cynnwys yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

Gwaith a Chyraeddiadau

1.2 Cyfarfu'r Pwyllgor 53 o weithiau yn ystod yr Ail Gynulliad. Cyfarfu'r Pwyllgor ar y cyd hefyd â'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau ar 8 Mawrth 2007 i drafod Papur Gwyrdd yr UE: *Towards a future Maritime Policy for the Union: A European Vision for the oceans and seas.* Fel rhan o'i ymrwymiad i sicrhau bod ei drafodion yn fwy hygyrch i bobl Cymru, cynhaliodd y Pwyllgor nifer o'i gyfarfodydd mewn amryw o leoliadau: Neuadd y Sir, Hwlffordd, 23 Mawrth 2006; Canolfan Ymwelwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Gogledd, Bae Colwyn, 26 Hydref 2006; adeilad LANTRA ar Faes Sioe Amaethyddol Cymru, Llanelwedd, 30 Tachwedd 2006; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, 1 Mawrth 2007. Cynhaliodd y Pwyllgor dri ymchwiliad o bwys yn ystod yr Ail Gynulliad. Lansiodd ei adroddiad, *Yr agweddau ar gynllunio sy'n gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad* ym mis Ionawr 2004. Cafodd ei adroddiad ar *TB mewn gwartheg* ei lansio yn Sioe'r Siroedd Unedig yng Nghaerfyrddin ym mis Awst 2004 a chafodd ei drydydd ymchwiliad ar *Bodloni Targedau Tirlenwi ac*

Ailgylchu ei lansio yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym mis Awst 2005. Paratôdd y Pwyllgor bum adroddiad polisi arall a'u cyflwyno yn 2006-07 a oedd yn deillio o ymchwiliadau byrrach.

1.3 Prif flaenoriaethau strategol y Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad fel y'u datganwyd yn ei flaenraglenni gwaith blynyddol oedd: cyflwyno adroddiad ar yr agweddau cynllunio sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy; adolygu dulliau rheoleiddio gwaith rheoli gwastraff; gwneud gwaith ar yr amgylchedd morol; edrych ar effeithiolrwydd gwaith i drin a rheoli twbercwlosis mewn gwartheg; edrych ar botensial y diwydiant biognydau a biodanwyddau; cyflwyno adroddiad ar yr agweddau cynllunio ar offer telathrebu symudol; ystyried cynaliadwyedd ymchwil amaeth-amgylcheddol. Roedd y Pwyllgor hefyd yn cael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd am oblygiadau diwygio'r CAP a datblygu'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2007-2013.

1.4 Mae prif gyraeddiadau'r Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad wedi'u hamlinellu isod.

Craffu ar ddeddfwriaeth

Deddfwriaeth Sylfaenol

1.5 Cytunodd y Pwyllgor ar brotocol ar sut y byddai'n craffu ar Ddeddfwriaeth Sylfaenol ym mis Medi 2005.

1.6 Cafodd yr eitemau canlynol o Ddeddfwriaeth Sylfaenol eu cyfeirio at y Pwyllgor i gael eu hystyried:

- *Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol*
- *Mesur Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd*
- *Mesur Lles Anifeiliaid*
- *Mesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig*
- *Mesur Tir Comin*
- *Mesur Morol*
- *Mesur Newid Hinsawdd*

1.7 Cafodd y Mesur Newid Hinsawdd ei gyfeirio at y Pwyllgor i'w ystyried ar 28 Tachwedd 2006. Gan nad oedd yn debyg y câi'r Pwyllgor gyfle i graffu ar y Mesur drafft cyn diwedd yr Ail Gynulliad, ar gyfer ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007, gofynnodd y Pwyllgor am bapur oddi wrth y Gweinidog i nodi cynnwys tebygol y Mesur ac fe drafododd y papur hwnnw.

1.8 Yn achos y Mesur Lles Anifeiliaid, craffodd y Pwyllgor ar y Mesur drafft a'r Mesur. Croesawodd yr Aelodau egwyddor y Mesur am ei fod yn rhoi pwerau galluogi helaeth i'r Cynulliad, fel yr awdurdod cenedlaethol priodol, i benderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun ar gyfer hybu safonau lles. Gan hynny, roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y Mesur fel y'i drafftiwyd ond nododd ei fod yn awyddus i graffu ar yr is-ddeddfwriaeth a geid yn unol â'r Ddeddf.

1.9 Sicrhaodd y Pwyllgor welliant i *Fesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig.* Roedd yr Aelodau'n anfodlon bod Cymal 38 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau i'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur am arfer swyddogaethau penodol, heb ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig. Roedd yr Aelodau'n amau nad oedd hyn yn gyson â Phapur Gwyn Llywodraeth y DU, *Trefn Lywodraethu Well i Gymru.* Oherwydd hynny, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog gyfleu i'r Ysgrifennydd Gwladol fod y Pwyllgor am gael gwelliant i'r Mesur a fyddai'n adlewyrchu ysbryd datganoli ac yn sicrhau yr ymgynghorid â'r Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig. Derbyniwyd y gwelliant gan Defra a chafodd ei gynnig fel un o welliannau'r Llywodraeth i'r Mesur.

1.10 Er bod y Pwyllgor wedi rhoi croeso yn fras i'r Mesur Tir Comin, roedd yn gofidio nad oedd y Mesur yn cynnwys darpariaethau fframwaith ac nad oedd felly yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Papur Gwyn *Trefn Lywodraethu Well i Gymru* y byddai Mesurau'n cael eu drafftio mewn ffordd a fyddai'n rhoi pwerau ehangach a mwy caniataol i'r Cynulliad. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar y Mesur a chlywodd bryderon tystion am gostau rhedeg a phwerau cymdeithasau tir comin yn y dyfodol ac a oedd y Mesur yn hybu gwell rheolaeth ar dir comin neu beidio. Cafodd gwelliant i Gymal 31(1)(a), a fyddai wedi darparu hyblygrwydd dewisol o fewn swyddogaethau cymdeithasau tir comin, ei gynnig a chafodd y Mesur ei ddiwygio yn Senedd y DU er mwyn rhoi'r hyblygrwydd a oedd yn gynhenid yng ngwelliant y Pwyllgor.

1.11 Cafodd y *Mesur Morol* ei gyfeirio at y Pwyllgor ym mis Mehefin 2005. Ym mis Mawrth 2006, cyhoeddodd Defra ddogfen ymgynghori. Ar ôl derbyn papur sefyllfa oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y rhanddeiliaid allweddol ynghylch cynigion Llywodraeth y DU. Anfonwyd ymateb y Pwyllgor i Defra a'i osod gerbron y Cynulliad. Roedd ymateb y Pwyllgor yn gwneud nifer o argymhellion ynghylch gofyn am bwerau fframwaith yn y mesur; diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â physgodfeydd; a chadwraeth forol yn nyfroedd Cymru yn y dyfodol.

Is-ddeddfwriaeth

1.12 Cytunwyd ar brotocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth ym mis Hydref 2004. Roedd y Pwyllgor yn cael amserlenni manwl y ddeddfwriaeth a oedd ar y gweill ym mhortffolio'r Gweinidog yn rheolaidd drwy gydol yr Ail Gynulliad. Gofynnodd y Pwyllgor am sawl diwygiad i'r rhestrau er mwyn helpu'r Aelodau i ddod o hyd i'r eitemau hynny o ddeddfwriaeth lle'r oedd y cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli yn llwyr neu'n rhannol i'r Gweinidog. Mae manylion yr offerynnau statudol y bu'r Pwyllgor yn craffu arnynt i'w gweld yn adroddiadau blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2003-2007.

Deddfwriaeth Ewropeaidd

1.13 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried eitemau yn Rhaglen Deddfwriaeth a Gwaith y Comisiwn Ewropeaidd sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor, gan gynnwys cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau i gymryd tystiolaeth ar Bapur Gwyrdd yr UE *Towards a future Maritime Policy*

for the Union: A European vision for the oceans and seas a chytuno ar ymateb iddo.

1.14 Yn ei gyfarfod ar 4 Mai 2005, ystyriodd y Pwyllgor gynigion REACH y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer strategaeth gemegol newydd i'r Undeb Ewropeaidd. Yn y misoedd dilynol, daeth y newyddion diweddaraf i law am yr astudiaeth gwmpasu a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â Rheoliad REACH. Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am farn Dow Corning, sy'n aelod o Gymdeithas y Diwydiannau Cemegol, a World Wildlife Fund Cymru. Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad a'r casgliadau a ddeilliodd o'i drafodaethau ar 13 Gorffennaf. Ym mis Ionawr 2006, rhoddodd y Gweinidog y newyddion diweddaraf am gynnydd y cynigion.

1.15 Fel rhan o ymdrech y Pwyllgor i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol i weithio, ar ddau achlysur defnyddiwyd technoleg cynadledda fideo i gysylltu'r Pwyllgor yn uniongyrchol â Brwsel yn ystod ei drafodion. Enynnodd hyn dderbyniad da gan y Pwyllgor a chan y Comisiwn Ewropeaidd.

Adolygiadau polisi

1.16 Cynhaliodd y Pwyllgor dri ymchwiliad o bwys yn ystod yr Ail Gynulliad ac ym mis Chwefror 2007 bu'n craffu ar waith y Gweinidog o ran y cynnydd tuag at roi'r argymhellion yr oedd wedi bwriadu eu derbyn ar waith. Fel y nodwyd yn 1.2, gosododd y Pwyllgor bum adroddiad arall a oedd yn deillio o ymchwiliadau byrrach. Gwelodd y Pwyllgor fod hyn yn ffordd hyblyg i weithio a gwneud argymhellion i'r Gweinidog.

1.17 Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad yn y cyfarfod llawn ym mis Chwefror 2004 ar ei ymchwiliad cyntaf, *Yr agweddau ar gynllunio sy'n gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad* gan gyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rolau a chyfrifoldebau, mecanweithiau cynllunio, gwybodaeth a data, y Gymraeg, datblygu cynaliadwy, argaeledd tir, ac adnoddau. Derbyniodd y Gweinidog y cyfan ond un o argymhellion y Pwyllgor. Roedd ail ymchwiliad y Pwyllgor, ar dwbercwlosis mewn gwartheg, yn canolbwyntio ar gyfyngu'r clefyd a rheoli a lleihau TB mewn gwartheg yn y tymor hir drwy ddefnyddio'r arferion ffermio gorau mewn iechyd a lles anifeiliaid. Cwblhaodd y Pwyllgor ei ymchwiliad ar fodloni targedau tirlenwi a thargedau ailgylchu ym mis Mai 2005. Tanlinellodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2005, yr her sylweddol sy'n wynebu Cymru os yw'n bwriadu cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion a anelwyd at hwyluso ailgylchu, a fyddai'n helpu i fodloni'r targedau tirlenwi a'r targedau ailgylchu a bennwyd gan Ewrop a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ym mis Tachwedd 2005, craffodd y Pwyllgor ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w adroddiad. Cytunodd yr Aelodau y byddent yn derbyn diweddariadau rheolaidd oddi wrth y Gweinidog ynghylch y cynnydd a fyddai'n cael ei wneud i roi argymhellion y Pwyllgor ar waith. Ym mis Mawrth 2006, ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad cyntaf a gofyn am farn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y cynnydd a oedd wedi'i wneud hyd at yr adeg honno. Parhaodd y Pwyllgor i ymddiddori mewn materion rheoli gwastraff ac ym mis Ionawr 2007,

cymerodd dystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru pan roddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran darparu safleoedd tirlenwi a thrafododd ddefnyddio a datblygu cyfleusterau ar gyfer rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy.

1.18 Mae manylion ymchwiliadau byrrach y Pwyllgor i'w cael yn Adroddiad Blynyddol 2006-07.

Craffu ar y gyllideb

1.19 Bodlonodd y Pwyllgor y gofynion sydd arno i gyfrannu at broses y gyllideb bob blwyddyn drwy nodi blaenoriaethau ar gyfer gwariant ym mhrif grŵp gwariant (MEG) yr amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad. Yn ystod 2006-07, yn sgil y cytundeb pob-plaid ar y gyllideb derfynol, ystyriodd y Pwyllgor gynigion ar gyfer ad-drefnu blaenoriaethau MEG yr amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad a chytuno arnynt, a hynny er mwyn adfer lefel taliadau Tir Mynydd, sef un o'r blaenoriaethau yr oedd y Pwyllgor wedi'u datgan.

Hyfforddiant mewn craffu

1.20 Ym mis Hydref 2004, ymgymerodd Aelodau a swyddogion y Pwyllgor â hyfforddiant mewn gwaith craffu o dan arweiniad John Sturrock CF o Core Solutions Ltd. Ymdriniodd yr hyfforddiant â materion fel cynllunio rhaglenni gwaith, yr angen i gydweithredu mewn gwaith Pwyllgor, a thechnegau holi a gwrando.

2. YR ETIFEDDIAETH I'R PWYLLGOR(AU) OLYNOL

Materion Strategol

2.1 Argymhellir y dylai'r Pwyllgor(au) olynol ganolbwyntio ar y materion strategol lefel-uchel canlynol.

Cynllun Gweithredu Strategaeth Amgylchedd Cymru

2.2 O gofio amserlen faith y strategaeth a'i heffaith arfaethedig ar ansawdd bywyd pobl Cymru, mae'n hanfodol bod y cynllun gweithredu'n cael ei hadolygu'n rheolaidd a bod unrhyw anawsterau o ran ariannu a gwireddu'r deilliannau yn cael eu nodi. Lleddfu newid hinsawdd ac addasu ato yw un o bum thema gyffredinol y strategaeth. Pwysodd y Pwyllgor ar y Gweinidog ar nifer o adegau i sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i roi sylw i'r flaenoriaeth hon. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylai'r pwyllgorau a fydd yn ei olynu barhau i graffu ar berfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran newid hinsawdd.

Rheoli Gwastraff

2.3 Mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol na fydd rhai o ofynion Cyfarwyddebau'r UE yn y dyfodol yn cael eu bodloni, a chan ei bod yn debyg y caiff yr holl leoedd tirlenwi eu dihysbyddu yn y pum mlynedd nesaf, mae'r

angen i ailgylchu gwastraff a rheoli gwastraff mewn ffordd gynaliadwy yn dod yn fwyfwy pwysig. Efallai y bydd Aelodau'r Trydydd Cynulliad am barhau i adolygu strategaeth wastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Yn Gall gyda Gwastraff.*

Biognydau a biodanwyddau

2.4 Mae datblygu diwydiant biodanwyddau yng Nghymru yn dod â goblygiadau nid yn unig ar gyfer amaethyddiaeth, ond hefyd ar gyfer datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig. O gofio bod biognydau'n niwtral o ran carbon, mae eu cyfraniad at leddfu effeithiau newid hinsawdd hefyd yn arwyddocaol. Efallai y bydd Pwyllgor olynol priodol am ystyried ymchwiliad llawnach nag y llwyddodd y Pwyllgor hwn i'w gynnal ar botensial biodanwyddau.

Datblygu Bwyd a Marchnata – Strategaeth Garddwriaeth; Strategaeth Llaeth

2.5 Yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2007, clywodd y Pwyllgor fod y Llywodraeth yn bwriadu datblygu un Strategaeth Bwyd-Amaeth gyffredinol ddiwygiedig, gan ymgorffori cynlluniau gweithredu ar gyfer sectorau penodol, a gâi ei chyhoeddi erbyn diwedd 2007. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y strategaeth gyfredol ar gyfer garddwriaeth heb berfformio'n ddigon da, o gofio twf y sector; ei bod yn holl-bwysig rhoi cynllun gweithredu strategol cadarn ar waith ar gyfer y diwydiant llaeth; ac y gallai sectorau eraill ddysgu o'r brandio llwyddiannus sydd wedi'i arddel gan Hybu Cig Cymru, er enghraifft. Gan hynny, mae'n awgrymu y gallai Aelodau'r Trydydd Cynulliad ddymuno adolygu cynnydd y strategaeth gyffredinol newydd.

Twbercwlosis mewn Gwartheg

2.6 Bydd canlyniadau'r chwe mis cyntaf o brofion gama interfferon yn hysbys erbyn Mai/Mehefin 2007. O gofio effeithiau pellgyrhaeddol TB mewn gwartheg ar ardaloedd gwledig, dylai'r rhain gael eu pwyso a'u mesur yn ofalus, ac felly hefyd effaith profion cyn i anifeiliaid gael eu symud.

Ffermio Cynaliadwy ac Amgylchedd 2020 – Grŵp Gorchwyl a Gorffen

2.7 Disgwylir i'r grŵp hwn gyflwyno adroddiad ym mis Mehefin 2007. Mae'r Gweinidog wedi dweud sawl gwaith y bydd yn rhoi ystyriaeth o ddifrif i gasgliadau'r grŵp. Efallai yr hoffai Pwyllgor olynol graffu arnyn nhw hefyd.

Y Cynllun Datblygu Gwledig olynol ar gyfer 2007-2013

2.8 Daeth cyfnod rhaglen y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) i ben ar ddiwedd 2006. Bydd y cynllun olynol yn rhedeg o 2007-2013. Cafodd y cynllun olynol ei ddatblygu yng nghyd-destun amcanion cyffredinol yr UE yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar ac yng Nghyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr. Mae newid hinsawdd yn ystyriaeth arwyddocaol hefyd, ac felly hefyd effaith 'Cynllun Gofodol Cymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Strategaeth

Amgylchedd Cymru yn ceisio ymgorffori agenda cystadleurwydd Lisbon ac agenda cynaliadwyedd Gothenburg. Gan hynny, mae RDP hyblyg, wedi'i ariannu'n ddigonol, yn hanfodol ar gyfer dyfodol cymunedau gwledig Cymru. Yn ei adroddiad ar y dystiolaeth a gymerwyd ar gyfer y cynllun olynol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'r dystiolaeth y byddai'n ei chasglu wrth gloriannu'r cynllun cyfredol ymlaen llaw ac wedyn er mwyn lledaenu'r arferion gorau drwy holl raglenni'r cynllun olynol. Pan fydd y cynllun olynol wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol, nad yw'n debyg o ddigwydd tan ddiwedd 2007, dylai Pwyllgor olynol fonitro a chloriannu'r cynnydd a sut mae pedair echel y cynllun yn cael eu gwireddu.

Adolygu TANs

2.9 Mae'n hen bryd adolygu nifer o'r TANs. Fel y gwelodd y Pwyllgor wrth adolygu sut roedd TAN 15 wedi'i roi ar waith a sut roedd yn gweithio, gall TANs diwygiedig beri problemau os nad yw'r canllawiau'n briodol. Hoffai'r Pwyllgor gynghori Aelodau'r Trydydd Cynulliad i fonitro'r TANs ac adolygu sut maen nhw'n cael eu diwygio a'u rhoi ar waith a sut maen nhw'n gweithio.

Materion trawsbynciol

2.10 Bydd y Pwyllgorau olynol am nodi bod y Pwyllgor wedi argymell y dylai pob papur a briffiad i'r Pwyllgor gynnwys cyngor a chwestiynau, lle bo'n briodol, ar faterion trawsbynciol.

Deddfwriaeth

Deddfwriaeth Sylfaenol a Phwerau i Wneud Mesurau

2.11 Ar 15 Mawrth 2007, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Papur Gwyn y bu hen ddisgwyl amdano ar y Mesur Morol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen Mesur Morol, gan nad oes strategaeth gyffredinol ar hyn o bryd ar gyfer rheoli'n moroedd. Gan hynny, mae'n credu y bydd Mesur yn y dyfodol yn gyfle arwyddocaol i roi sylw i gyflwr presennol yr amgylchedd morol, ac, ar adeg o ddatblygu cynyddol, i geisio sicrhau systemau sydd wedi'u hintegreiddio a'u mireinio'n well. Yn ei adroddiad ar ymgynghoriad Defra ar fesur Morol, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud popeth yn ei allu i sicrhau'r hyblygrwydd ehangaf posibl i ddatblygu polisi yng Nghymru drwy ddefnyddio pwerau fframwaith. O gofio goblygiadau'r pwerau a ddylai gael eu rhoi i'r Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn cynghori Aelodau'r Trydydd Cynulliad yn gryf i gymryd tystiolaeth ar y mesur ac i fynegi eu barn i Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell y dylai Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn y Trydydd Cynulliad bwyso a mesur rhagoriaethau unrhyw bolisi yr eir ag ef yn ei flaen drwy ddeddfwriaeth yn unol â Deddf Morol.

2.12 Fel y nodwyd o dan 1.8, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig bod y Cynulliad yn craffu ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n codi yn unol â Deddf Lles Anifeiliaid, sef maes lle mae Cymru wedi'u galluogi i wneud ei pholisi neilltuol ei hun.

2.13 Chafodd y Mesur Newid Hinsawdd mo'i chyhoeddi mewn pryd i ganiatáu i'r Pwyllgor graffu arno cyn diwedd yr Ail Gynulliad (gweler 1.7 uchod). Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Pwyllgor olynol gynnal ymchwiliad ar Fesur drafft a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

Is-ddeddfwriaeth

2.14 Nododd y Pwyllgor nifer o eitemau o ddeddfwriaeth ddrafft y dylid craffu arnynt ond chafodd y rhain mo'u cyflwyno i'w hystyried cyn mis Mawrth 2007. Maent wedi'u rhestru yn y tabl yn Atodiad 1. Os oes modd, mae awgrym wedi'i roi ar gyfer sut i ymdrin â'r Offerynnau Statudol drafft yn y Trydydd Cynulliad.

Cynigion Deddfwriaeth Ewropeaidd

2.15 Yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007, ystyriodd y Pwyllgor Raglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007 gan nodi'r canlynol fel blaenoriaethau ar gyfer gwaith craffu yn ystod y Trydydd Cynulliad:

- Papur Gwyn "Towards a European Climate Change Adaptation Programme";
- Papur gwyrdd ar Newid Hinsawdd ar ôl 2012;
- Cyfathrebiad ar bolisi morol;
- Cynllun Gweithredu ar Ddefnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy;
- Archwiliad Iechyd CAP;
- Cyfathrebiad ar y Strategaeth Lles Anifeiliaid 2007-2013;
- Rheoliadau ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Mawrth 2007

Atodiad 1

	Y Rhif Cyf a'r Dyddiad	Enw/Teitl Gweithio	Diben	Y weithdrefn a ragwelir yn y Trydydd Cynulliad (os yw'n gymwys) Cadarnhaol/Negyddol/ Dim gweithdrefn ffurfiol	Amcangyfrif o'r amser y daw i rym – os yw'n hysbys / Y dyddiad y mae'r Pwyllgor EPC i fod i graffu arni – os oes dyddiad wedi'i amserlennu.
	EPC(2)-03-03(p3) – Rhif 83 – bellach Rhif 77 Gorffennaf 16, 2003 22PE	Rheoliadau Lawntiau Pentrefi	Rhoi diffiniad o lawnt pentref a rhagnodi cyfnodau pan ganiateir gwneud cais am gofrestru lawnt pentref		I'w cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth newydd sydd i'w chyflwyno o dan Ddeddf Tiroedd Comin 2006
	EPC(2)-02-04(p4) – Rhif 79 – Bellach Rhif 74 Chwefror 4, 2004 18PE	Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol a Chynefinoedd (Echdynnu Mwynau drwy Garthu Morol) (Cymru)	Trosi'r Cyfarwyddebau Ewropeaidd perthnasol ar gyfer carthu morol yn nyfroedd Cymru	Negyddol	Yn dod i rym – Medi 2007
	EPC(2) 02-06(p3) Rhif 71 1 Chwefror, 2006	Rheoliadau Tir Mynydd (Diwygio) (Cymru) 2006	Mae eu hangen er mwyn rhoi cynllun olynol Tir Mynydd ar waith yn 2007		Cafodd y Rheoliadau hyn eu hymgorffori yn Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006, a'r

	CAEAF				dyddiad y daw'r rheoliadau hynny i rym yw 01/01/07.
	EPC)-05-04(pa) – Rhif 73 Mai 5, 2004 17PE	Rheoliadau Rheoli Gwastraff Trefol	Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn rhoi adrannau 29 a 30 o Ddeddf Masnachu Gwastraff ac Allyriannau 2003 ar waith ac yn ei gwneud yn ofynnol i strategaethau rheoli gwastraff trefol gael eu paratoi ac i ddata gwastraff trefol gael ei gyflwyno ar ffurf ragnodedig.	I'w chadarnhau	Dim dyddiadau wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd
	EPC(2)-02-05(p3) – Rhan 1 Chwefror 2, 2005 CAEAF ac EPC) 11-05(p7) Rhif 89 Hydref 5, 2005	Gorchymyn Pysgodfeydd Cocos Aber Afon Dyfrdwy 2006	Rheoli pysgota	I'w chadarnhau – yn debyg o fod yn Orchymyn cyfansawdd gyda Deffra	Yn dod i rym – o bosibl ar ddiwedd 2007

	CAEAF				
	EPC) 04-05(p3) – Rhif 44 Ebrill 13, 2005 CAEAF	Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ynghylch Cwotâu a Physgota gan Drydedd Wlad) (Cymru)	Mae hwn yn darparu pwerau gorfodi ac yn nodi cosbau ar gyfer y darpariaethau hynny yn y Rheoliadau Cymunedol sydd y tu allan i adran 30(1) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981		WEDI'I DYNNU'N ÔL – nid yw'r ddeddfwriaeth yn mynd yn ei blaen
	EPC) 11-05(p7) Rhif 24 Hydref 5, 2005 CAEAF	Rheoliadau Grug a Glaswellt, etc. (Eu Llosgi) (Cymru) 2005	Dirymu a diwygio'r amodau llosgi cyfredol i ffermwyr a thirfeddianwyr	Negyddol	Yn dod i rym – canol Medi 2007
	EPC) 11-05(p7) Rhif 55 Hydref 5, 2005 44PE	Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew tanwydd Amaethyddol)	Amnewid rheoliadau a wnaed ym 1991 er mwyn bodloni gofynion Cyfarwyddeb Safonau Technegol y CE	Negyddol	Dim dyddiadau wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd
	EPC(2) 11-05(p7) Rhif 82 Hydref 5, 2005	Gorchymyn Pysgod Cregyn (Ardal Fôr Benodedig) (Gwahardd Dulliau Pysgota) (Cymru) (Rhif 2) 2005	Diogelu ffynhonnell bwyd y fôr-hwyaden ddu drwy wahardd carthu mewn ardal fôr benodedig		WEDI'I DYNNU'N ÔL – nid yw'r ddeddfwriaeth yn mynd yn ei blaen

	CFA90				
	EPC(2) 11-05(p7) Rhif 83 Hydref 5, 2005 CFA88	Gorchymyn Diogelu Morfilod (Cymru) 2005	Cymhwyso mesurau technegol at rwydi pysgota i leihau nifer y morfilod sy'n cael eu dal yn ddamweiniol wrth bysgota	Negyddol	Dyddiad dod i rym dros dro - diwedd 2007 / dechrau 2008
	EPC(2) 11-05(p7) Rhif 85 Hydref 5, 2005 CFA81	Is-ddeddf Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru – Peidio â dal wrth Ynys Sgomer	Diogelu stociau		WEDI'I THYNNU'N ÔL – nid yw'r ddeddfwriaeth yn mynd yn ei blaen
	EPC(2) 11-05(p7) Rhif 86 Hydref 5, 2005	Is-ddeddf 38 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru – Uchafswm Maint Llongau	Rheoli effeithiau pysgota	I'w chadarnhau	Dim dyddiadau wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd -
	EPC(2) 11-05(p7) Rhif 90 Hydref 5, 2005 CFA67	Gorchymyn Pysgodfeydd Cregyn Gleision Bae Abertawe (Colin Vivian Thomas) 2004	Meithrin pysgod cregyn	I'w chadarnhau	Dim dyddiadau wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd
	EPC(2) 11-05(p7) Rhif 92	Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y	Mesurau i ategu rheoliad cadwraeth technegol	Negyddol	Dyddiad dod i rym dros dro – diwedd 2007 /

	Hydref 5, 2005 CFA46	Gymuned) (Cymru) (Diwygio)	850/98 yr UE		dechrau 2008
	EPC(2) 11-05(p7) Rhif 93 Hydref 5, 2005 CFA45	Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ynghylch Cwotâu a Physgota gan Drydydd Gwledydd) (Cymru)	Rheoli cwotâu pysgod. Yn darparu pwerau gorfodi.		WEDI'I DYNNU'N ÔL – nid yw'r ddeddfwriaeth yn mynd yn ei blaen
	EPC(2) 02-06(p3) Rhif 147 1 Chwefror, 2006 91PE	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) (Diwygio Rhif 2)	Cymhwyso'r angen am asesiad at geisiadau adolygu mwynau sydd wedi'u gohirio ac a gyflwynwyd cyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 15/11/2000	Negyddol	Dim dyddiadau wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd - Fydd dim craffu ar y rhain cyn diwedd yr Ail Gynulliad.
	EPC(2) 05-06(p1) – Adroddiad y Gweinidog 8 Mawrth, 2006	Gorchymyn Clefydau Heintus Ceffylau	Helaethu'r rhestr o glefydau yn y Gorchymyn cyfredol er mwyn cymryd i ystyriaeth glefydau newydd a chlefydau sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn rhoi pwerau i'r Cynulliad i reoli lledaeniad y clefydau y	Negyddol	Yn dod i rym – hydref 2007 neu wanwyn 2008

			manylir arnynt yn y cynllun wrth gefn ar gyfer Clefydau Egsotig Ceffylau o Fath Penodedig (STEED).		
	EPC(2) 08-06(p3) Rhif 61 24 Mai, 2006	Cod Ymarfer ar Filgwn	Esbonio'r safonau a fydd yn ofynnol ar draciau milgwn, meicro-sglodion a'r arferion gorau.	Negyddol	Yn dod i rym – 2008
	EPC(2) 08-06(p3) Rhif 62 24 Mai, 2006	Lles Milgwn	Cyflwyno safonau ar gyfer stadia sy'n cael eu defnyddio i rasio milgwn, cyflwyno meicro-sglodion i'r anifeiliaid a sicrhau presenoldeb milfeddygol ar draciau rasio	Cadarnhaol	Yn dod i rym – 2008
	EPC(2) 08-06(p3) Rhif 69 24 Mai, 2006	Cod Ymarfer ar Gŵn	Llunio cod ymarfer ar arferion gorau lles anifeiliaid o safbwynt gofalu am gŵn.	Negyddol	Yn dod i rym – Hydref 2008
	EPC 11-06 (p1) Adroddiad y Gweinidog 13 Gorffennaf,	Rheoliadau ar gyfer amrywiol adrannau o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol Gorchymyn Cynllunio Gwlad a	Galluogi adrannau newydd o'r Ddeddf i ddod i rym Gwella'r gwasanaethau cynllunio yng Nghymru	Negyddol	Dim dyddiadau wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd

	2006	Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2007			
	EPC 11-06 (p1) Adroddiad y Gweinidog 13 Gorffennaf 2006	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) 2007	Gwella'r gwasanaethau cynllunio yng Nghymru	Negyddol	Dim dyddiadau wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd
	EPC 12-06(p3) Rhif 90 28 Medi 2006	OS Diwygio: Rheoliadau Grant Prosesu a Marchnata Amaethyddol (Cymru) (Diwygio) 2006.	Diwygiadau i'r Rheoliadau Grant Prosesu a Marchnata presennol	d/g	Cafodd y rheoliadau hyn eu hymgorffori yn Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006, a'r dyddiad y daw'r rheoliadau hynny i rym yw 01/01/07.
	EPC 01-07(p2) Rhif 14	Symud Anifeiliaid Syrcas o fewn y Gymuned	Mae'r OS yn anelu at sefydlu trefn gyffredin ar gyfer symud anifeiliaid	Negyddol	Yn dod i rym – haf 2007

	25 Ionawr 2007		drwy bennu amodau iechyd ac archwiliadau iechyd anifeiliaid cyn caniatáu i anifeiliaid deithio i aelod-wladwriaeth arall. Bydd yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer gorfodi Rheoliadau'r UE		